

Ail Gyllideb Atodol 2022-23: Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ail Gyllideb Atodol 2022-23:

Memorandwm Esboniadol

Chwefror 2023





Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cynnwys

Cefndir	7
Memorandwm Esboniadol	8
Costau staffio	9
Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau o'r Senedd...	10
Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	11
Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi	12
Effaith y Gyllideb	13
Cwmpas y gyllideb	14



Cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2022-23** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynnyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2021, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £62.942 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- £43.425 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Senedd; a
- £17.552 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

Darparwyd £1.800 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a darparwyd £0.165 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32 gosodwyd **Memorandwm Esboniadol** ar 10 Mehefin 2022, gan gefnogi amrywiad i gyllideb 2022-23 y Comisiwn o fewn y Cynnig Cyllideb Atodol (Rheol Sefydlog 20.30). Cymeradwywyd y Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf 2022 yn dilyn gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Cynyddodd hyn gyllideb y Comisiwn i £65.003 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i addasiadau nad ydynt yn arian parod er mwyn adlewyrchu gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi.

Gosodir yr ail Femorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb atodol 2022-23 gymeradwy'r Comisiwn, drwy ail Gynnig Cyllideb Atodol.

Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd lleihau cyllideb gyffredinol y Comisiwn o £1.075 miliwn a lleihau'r gofyniad arian parod net o £0.975 miliwn. Cynigir yr opsiynau a ganlyn:

- Gostyngiad i'r gyllideb staffio i adlewyrchu'r gwrthdroad yn y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a'r gostyngiad tebygol yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd.
- Gostyngiad i'r gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.
- Gostyngiad i'r cyllidebau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Yn ogystal, mae adolygiad pellach o'r addasiadau cyfrifyddu sydd eu hangen yn ystod 2022-23, oherwydd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi, wedi tynnu sylw at yr angen i ddiwygio tair llinell o'r gyllideb. Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb gyffredinol ac nid oes unrhyw newid yn y gofyniad arian parod net.

Costau staffio

Cynigiodd **Memorandwm Esboniadol** Cyllideb Atodol Gyntaf y Comisiwn ar gyfer 2022-23 (a osodwyd ar 10 Mehefin 2022), gynnydd o £175k yng nghostau staff y Comisiwn, mewn ymateb i'r cynnydd o 1.25 y cant yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2022. Roedd hyn yn cynyddu'r gofyniad arian parod net £175k.

Ym mis Medi 2022 cyhoeddodd Llywodraeth y DU gwrthdroad yn y cynnydd hwn yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 6 Tachwedd 2022 ymlaen.

Mae effaith y gwrthdroad ar y Comisiwn yn golygu gostyngiad o tua £75k mewn costau staff y Comisiwn a gostyngiad o tua £55k mewn costau yr Aelodau a staff yr Aelodau - am y cyfnod rhwng 6 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol a fyddai'n lleihau'r gyllideb ar gyfer costau staffio'r Comisiwn o £75k ac yn lleihau'r costau a neilltuwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o £55k. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r gofyniad arian parod net £130k.

Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff, a'r system o gymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r Penderfyniad yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys); a
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Ni ellir cyfrifyddu'r costau terfynol yn gywir tan ar ôl 31 Mawrth 2023, felly gwneir rhagolygon yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar y disgwyliadau presennol, yn bennaf oherwydd swyddi gwag staff, nid yw'n debygol y dymunir defnyddio'r holl arian a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau a lwfansau eraill.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd o £16.802 miliwn, sef gostyngiad o £0.750 miliwn, sy'n cynnwys y £55k a nodwyd uchod. Mae hyn yn gadael digon o arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Costau i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

Yn ogystal â'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, mae symiau wedi'u neilltuo hefyd o fewn cyllideb y Comisiwn ar gyfer y costau a nodwyd i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ac ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Ni ellir cyfrifyddu'r costau terfynol yn gywir tan ar ôl 31 Mawrth 2023, felly gwneir rhagolygon yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar y disgwyliadau presennol, yn bennaf oherwydd swyddi gwag staff, nid yw'n debygol y gelwir ar yr holl arian a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol sy'n lleihau'r cyllidebau ar gyfer costau a nodwyd i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau o £125k a 25k yn y drefn honno. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r gofyniad arian parod net £150k.

Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi

Roedd cyllideb atodol gyntaf y Comisiwn ar gyfer 2022-23 yn cynnwys addasiadau i adlewyrchu gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16.

Yn dilyn adolygiad, mae'r tri ffigur a ddangosir yn y tabl isod yn gofyn am addasiad i adlewyrchu'r driniaeth gyfrifyddu gywir ar gyfer TAW na ellir ei hadennill ar daliadau rhent. Yr effaith gyffredinol net ar gyllideb weithredol 2022-23 yw £0.

Disgrifiad	2022-23 Cyllideb Atodol (gosodwyd)	Addasiadau	2022-23 Cyfanswm wedi'i addasu
Rhentu swyddfeydd	£40	£460	£500
Dibrisiant	£5,650	(£240)	£5,410
Llog	£1,100	(£220)	£880
Cyfanswm	£6,790	£0	£6,790

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol sy'n diwygio tair llinell o'r gyllideb, nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb gyffredinol ac nid oes newid yn y gofyniad arian parod net.

Effaith y Gyllideb

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- Lleihad yng nghyllideb y Comisiwn o £1.075 miliwn.
- Lleihad yn y gofyniad arian parod net o £0.975 miliwn.

Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronrus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2022-23 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1	Diwygiedig £000
Adnoddau ar wahân i adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn") ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn. Adnoddau heblaw am adnoddau cronrus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd.	63,928
Adnoddau cronrus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn: - o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu - incwm rhent; rhoddion; grantiau; llog ar falansau gweithio, ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd.	220
Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill.	58,592

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 2: Gofyniad Arian Parod	£'000	£'000
	2022-23	2022-23
	Gosodwyd	Diwygiedig
Gofyniad referiw net yr Aelodau	17,552	16,802
Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	97	72
Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol	477	352
Gofyniad referiw net y Comisiwn	44,561	44,386
Gofyniad cyfalaf net	516	516
Gwariant a reolir yn flynyddol	1,800	1,800
Is-gyfanswm	65,003	63,928
Addasiadau		
Dibrisiant	(5,650)	(5,410)
Taliadau llog/Addasiadau cyfalaf	(1,116)	(896)
Taliadau rhent	2,780	2,320
Newidiadau mewn darpariaethau	(1,800)	(1,700)
Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr	350	350
Is-gyfanswm	(5,436)	(5,336)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	59,567	58,592
Gostyngiad		£0,975